Ysgol Gynradd Gymunedol Tal-y-bont
Pennaeth - Mr Hefin Jones
prif@talybont.ceredigion.sch.uk

Gweledigaeth Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Gyda'n gilydd yn Ysgol Tal-y-bont byddwn yn

> datblygu dysgwyr uchelgeisiol, mentrus, creadigol, egwyddorol ac annibynnol sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes er mwyn iddynt gyrraedd eithaf eu gallu;
> hybu gwerthoedd ysbrydol, moesol, cymdeithasol, iechyd a lles y disgyblion gan bwysleisio pwysigrwydd parch, cwrteisi ac empathi tuag at bawb;
> meithrin hunan-barch, hunanhyder a hunanddisgyblaeth disgyblion er mwyn iddynt ddatblygu i fod yn ddinasyddion naturiol ddwyieithog sy'n falch o'r ysgol, y gymuned a Chymru gan ddeall y pwysigrwydd o gyfrannu'n lleol, yn genedlaethol a thu hwnt;
> sicrhau awyrgylch hapus, diogel a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb ymhob agwedd o fywyd yr ysgol;
>hyrwyddo dealltwriaeth o faterion amgylcheddol lleol a rhyngwladol gan gynnwys manteision bioamrywiaeth, ac yn,
>gwrando ar ein dysgwyr er mwyn iddynt chwarae rhan flaenllaw a gweithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Ysgol Gynradd Gymunedol Tal-y-bont
Tal-y-bont
Aberystwyth
Ceredigion SY24 5HE

01970 832276
@YsgolTalybont